# HYSBYSIAD STATUDOL I AD-DREFNU CANOLFAN ENFYS I'W GOSOD O DAN REOLAETH YSGOL PEN COCH A CHYNYDDU'R CAPASITI ARFEROL O 98 I 128 O 1 EBRILL 2025

## CYNGOR SIR Y FFLINT

Rhoddir rhybudd yn unol ag adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013, a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 bod Cyngor Sir y Fflint o Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewlo, Sir y Fflint, CH5 3FF ("yr Awdurdod Lleol"), wedi ymgynghori â'r unigolion gofynnol, yn cynnig ad-drefnu Canolfan Enfys, Ffordd Clayton Road, yr Wyddgrug, CH7 1SU o dan reolaeth Ysgol Pen Coch, Prince of Wales Avenue, y Fflint, CH6 5DL a chynyddu'r capasiti arferol o 98 i 128 o 1 Ebril 2025.

- **Ad-drefnu Canolfan Enfys i osod y ddarpariaeth dan reolaeth Ysgol Pen Coch a chynyddu'r capasiti arferol o 98 i 128 o 1 Ebrill 2025 ymlaen**

Mae Canolfan Enfys ac Ysgol Pen Coch yn ddarpariaethau addysgol arbenigol a gynhelir gan Gyngor Sir y Fflint yn bresennol.

Cynhaliodd yr Awdurdod Lleol gyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae'r adroddiad ar yr ymgynghoriad, sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw, ymatebion y cynigydd, ac ymateb llawn gan Estyn ar gael ar www.siryfflint.gov.uk, neu gallwch ofyn am gopi drwy anfon e-bost at 21stcenturyschools@flintshire.gov.uk

Cynigir gweithredu'r cynnig ar 1 Ebrill 2025.

Y cynnig yw ad-drefnu'r ddarpariaeth yng Nghanolfan Enfys a symud y ddarpariaeth o reolaeth bresennol Plas Derwen (Uned Cyfeirio Disgyblion) i reolaeth Ysgol Pen Coch. Bydd y cynnig yn golygu bod y capasiti arferol yn Ysgol Pen Coch yn cynyddu o 98 i 128 erbyn Ebrill 2025.

Byddai'r cynnydd mewn capasiti arferol yn cael ei gyflawni trwy Ysgol Pen Coch yn cymryd rheolaeth o Ganolfan Enfys ar ei safle presennol yn yr Wyddgrug.

Y niferoedd presennol ar y gofrestr yn Ysgol Pen Coch yw 100 gyda 97 o leoedd llawn amser a 3 rhan amser. Y capasiti arferol yw 98. Y niferoedd presennol ar gyfer Canolfan Enfys yw 28 gyda chapasiti arferol o 30.

Bydd trefniadau derbyn yn parhau i gael eu trin o fewn proses Panel Penderfyniadau ADY Cyngor Sir y Fflint.

Ni fydd unrhyw effaith ar gludiant o’r cartref i'r ysgol yn seiliedig ar y cynnig hwn.

O fewn cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynnig, sef erbyn **4 Rhagfyr 2024** gall unrhyw un wrthwynebu'r cynnig.

Dylid anfon gwrthwynebiadau drwy e-bost at 21stcenturyschools@flintshire.gov.uk neu’n ysgrifenedig at Claire Homard, Prif Swyddog, Addysg ac Ieuenctid, Cyngor Sir y Fflint, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewlo, Sir y Fflint, CH5 3FF.

Nodwch y byddai’n ddefnyddio pe bai unrhyw wrthwynebiad a anfonir drwy e-bost neu drwy’r post yn cynnwys enw llawn a chyfeiriad post y sawl sy’n gwrthwynebu.



**Claire Homard**

**Prif Swyddog, Addysg ac Ieuenctid**
**Ar ran Cyngor Sir y Fflint**

**Dyddiedig: 1 Tachwedd 2024**

**NODYN ESBONIADOL;**

Nid yw'r nodyn hwn yn ffurfio rhan o'r rhybudd statudol, ond bwriedir iddo esbonio'i ddiben cyffredinol.

1. Mae Cyngor Sir y Fflint yn gweithredu fel yr Awdurdod Lleol yn bwriadu ad-drefnu'r ddarpariaeth yng Nghanolfan Enfys a symud y ddarpariaeth o reolaeth bresennol Plas Derwen (Uned Cyfeirio Disgyblion) i reolaeth Ysgol Pen Coch. Bydd y cynnig yn golygu bod y capasiti arferol yn Ysgol Pen Coch yn cynyddu o 98 i 128 erbyn Ebrill 2025.

2. Byddai'r cynnydd mewn capasiti arferol yn cael ei gyflawni trwy Ysgol Pen Coch yn cymryd rheolaeth o Ganolfan Enfys ar ei safle presennol yn yr Wyddgrug.

3. Mae'r Cyngor yn gweithredu mewn ymateb i arolwg Estyn o Plas Derwen yn Hydref 2023 a nododd fod Canolfan Enfys angen gwelliant ac nad oedd gan Plas Derwen yr arbenigedd i gefnogi'r gwasanaeth o ystyried natur gwahanol iawn y ddarpariaeth a gynigir ac anghenion cymhleth y plant sy'n mynd i Ganolfan Enfys. Cynghorwyd yr awdurdod i'w dynnu o reolaeth Plas Derwen a sicrhau rheolaeth addas trwy ddull arall.

4. Bydd trefniadau Cludiant a Derbyniadau'n unol â pholisïau cyffredinol Cyngor Sir y Fflint.

5. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y cynigion gan y Tîm Moderneiddio Ysgolion, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF. Rhif ffôn:- 01352 702188 / 704015. E-bost: 21stcenturyschools@flintshire.gov.uk